OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 12

CYMORTH I GYRSIAU RHAN-AMSER

### Grantiau at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl

**83.**—(1) Mae gan fyfyriwr rhan-amser cymwys hawl yn unol â'r Rhan hon i gael grant at gostau byw myfyrwyr rhan-amser anabl i helpu gyda'r gwariant ychwanegol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni ei bod yn ofynnol i'r myfyriwr ei ysgwyddo oherwydd anabledd sydd ganddo ynghylch ei fod yn ymgymryd â chwrs rhan-amser dynodedig.

(2) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol, swm y grant o dan y rheoliad hwn yw'r swm sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

(3) Rhaid i swm y grant beidio â bod yn fwy na'r canlynol—

(a) £10,000 mewn perthynas â blwyddyn academaidd at wariant ar gynorthwyydd personol anfeddygol;

(b) £5,035 mewn perthynas â phob blwyddyn academaidd yn ystod y cyfnod cymhwystra at wariant ar eitemau mawr o offer arbenigol;

(c) y gwariant ychwanegol sy'n cael ei dynnu—

(i) yn y Deyrnas Unedig er mwyn bod yn bresennol yn y sefydliad;

(ii) yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan iddi er mwyn bod yn bresennol, fel rhan o'i gwrs, ar unrhyw gyfnod astudio mewn sefydliad dros y môr neu er mwyn bod yn bresennol yn yr Athrofa;

(ch) £1,260 mewn perthynas â blwyddyn academaidd at unrhyw wariant arall gan gynnwys gwariant sy'n cael ei dynnu at y dibenion y cyfeirir atynt yn is-baragraff (a) neu (b) sy'n fwy na'r uchafsymiau penodedig.